Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Brechlyn Hib/MenC

Amddiffyniad rhag llid yr ymennydd a septisemia

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am y brechlyn Hib/MenC sy'n amddiffyn rhag dau glefyd a achosir gan heintiau Haemophilus influenzae math B (Hib) a meningococaidd C (MenC).



Beth mae'r brechlyn yn amddiffyn yn ei erbyn?

Meningococaidd C

Gall bacteria MenC (grŵp meningococaidd C) achosi llid yr ymennydd (haint yn leinin yr ymennydd) a septisemia (gwenwyn gwaed). Mae llid yr ymennydd a septisemia yn ddifrifol iawn a gallant achosi anabledd parhaol a marwolaeth os na chânt eu trin yn gyflym.

Mae'r brechlyn MenC yn amddiffyn rhag haint meningococaidd C (un o achosion llid yr ymennydd). Ers cyflwyno'r brechlyn MenC ym 1999, bu gostyngiad o dros 95% mewn achosion o glefyd a achosir gan facteria grŵp meningococaidd C. Mae'r bacteria meningococaidd yn cael eu cario yng nghefn y gwddf ac yn cael eu lledaenu gan gyswllt agos estynedig. Mae'r ffyrdd y gall y bacteria ledaenu yn cynnwys tisian, pesychu, cusanu a rhannu eiddo personol.

Hib

Mae clefyd Hib (*Haemophilus influenzae* math B) yn haint a achosir gan facteria. Gall arwain at sawl salwch difrifol fel gwenwyn gwaed (septisemia), haint yr ysgyfaint (niwmonia) a llid yr ymennydd (haint yn leinin yr ymennydd). Gall y salwch a achosir gan Hib ladd os na chaiff ei drin yn gyflym.

Cyn cyflwyno'r brechlyn Hib, cafwyd tua 800 o achosion o Hib mewn plant bach bob blwyddyn yn y DU. Ers ei gyflwyno, mae nifer y plant o dan bump oed sydd â Hib wedi gostwng 99%. Gellir lledaenu'r bacteria yn yr aer o beswch a thisian pobl eraill. Mae'r brechlyn Hib dim ond yn amddiffyn rhag y math o lid yr ymennydd a achosir gan facteria *Haemophilus influenzae* math b. Nid yw'n amddiffyn rhag unrhyw fath arall o lid yr ymennydd, felly mae'n bwysig bod eich plentyn yn cael ei frechiadau llid yr ymennydd eraill pan fyddant yn cael eu cynnig a'ch bod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau clefyd meningococaidd.

Gall symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai yn ymddangos o gwbl. Gweler y darlun isod am symptomau.

Babanod a phlant bach

Twymyn, dwylo a thraed oer

Gwrthod bwyd a chwydu

Blin, ddim yn hoffi cael ei drin

Cysglyd, llipa, anymatebol

Anadlu neu rochian cyflym

Smotiau neu frech (gweler y prawf gwydr)

Crïo anghyffredin, griddfan

Tensiwn a chwydd yn y ffontanél (man meddal)

Gwddf anystwyth, casáu goleuadau llachar

Confylsiynau neu drawiadau

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n amau llid yr ymennydd?

Os yw eich plentyn yn sâl ac yn gwaethygu, peidiwch ag aros am frech oherwydd gall symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai symptomau'n ymddangos o gwbl, felly gofynnwch am gymorth meddygol ar frys.

Os na allwch gysylltu â'ch meddyg, neu os ydych yn dal i boeni ar ôl cael cyngor, dylech ymddiried yn eich greddf a mynd i adran achosion brys eich ysbyty agosaf.

Ffynhonnell: © meningitisnow.org

Y prawf gwydr ar gyfer llid yr ymennydd

Mae brech nad yw'n pylu o dan bwysau yn arwydd o septisemia meningococaidd (gwenwyn gwaed).

- Gwasgwch ochr gwydr clir yn gadarn yn erbyn y croen.
- Gall smotiau neu frech (neu'r ddau) bylu i ddechrau.
- Daliwch ati i wirio.
- Mae twymyn gyda smotiau neu frech (neu'r ddau) nad ydynt yn pylu o dan bwysau yn argyfwng meddygol.
- Os yw eich plentyn yn sâl ac yn gwaethygu, gofynnwch am gymorth meddygol ar unwaith.
- Ar groen tywyll, gall y smotiau neu'r frech fod yn fwy anodd i'w gweld.

Pryd y mae'r brechlyn Hib/MenC yn cael ei gynnig?

Mae plant yn cael cynnig eu brechlyn Hib/Men C ochr yn ochr â'u brechlynnau rheolaidd eraill rhwng 12 a 13 mis oed.

Sut y byddaf yn gwybod pan fydd angen i'm plentyn gael y brechiadau?

Anfonir apwyntiad at blant ar gyfer eu brechlyn Hib/MenC rheolaidd ar yr oedran priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn cynnal clinigau brechu arbennig i fabanod a phlant. Os byddwch yn newid eich cyfeiriad, rhowch wybod i'ch meddygfa.

Beth fydd yn digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd nyrs y practis neu'r meddyg teulu yn esbonio'r brechiad ac yn ateb eich cwestiynau. Mewn plant dros 12 mis oed, rhoddir pigiadau yn rhan uchaf y fraich fel arfer.

A ellir rhoi'r brechlyn os bydd fy mhlentyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os oes gan eich plentyn fân salwch heb dymheredd uwch (twymyn), fel annwyd, dylai gael ei frechiadau fel arfer. Os yw eich plentyn yn sâl gyda thymheredd uwch ar ddiwrnod y brechiad, gohiriwch y brechiad nes ei fod wedi gwella.

A oes unrhyw resymau eraill pam na ddylid rhoi'r brechlyn?

Prin iawn yw'r rhesymau pam na ellir rhoi'r brechlyn Hib/MenC. Ni ddylid rhoi'r brechlyn i blant sydd wedi cael adwaith difrifol (sy'n bygwth bywyd) i ddos blaenorol o'r brechlyn neu unrhyw gynhwysyn yn y brechlyn.

Os oes gan eich plentyn:

- anhwylder gwaedu (er enghraifft hemoffilia, lle nad yw ei waed yn clotio'n iawn); neu
- os yw wedi cael ffit nad yw wedi'i hachosi gan dymheredd uwch;

siaradwch â'ch meddyg teulu, nyrs practis neu ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael unrhyw frechiad.

Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os na allwch fod yn bresennol. Os byddwch yn colli'r apwyntiad neu'n gorfod gohirio'r brechiad, trefnwch apwyntiad newydd cyn gynted â phosibl. Gellir rhoi brechiadau o hyd, ond bydd eich plentyn heb amddiffyniad am gyfnod hwy.

Cofiwch, mae'n bwysig dal i fyny ar y rhan fwyaf o frechiadau a gollwyd. Os yw eich plentyn wedi colli brechiad ac yn hŷn na'r oedran a argymhellir ar gyfer y brechlyn, siaradwch â'ch meddyg teulu, nyrs practis neu ymwelydd iechyd.

A oes gan y brechlyn unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau o ddosau o'r brechlyn wedi'u defnyddio ac mae ganddo record ddiogelwch dda iawn. Weithiau gall plant deimlo dolur yn rhan uchaf y fraich neu'r forddwyd lle rhoddwyd y pigiad. Gall rhai ddatblygu lwmp bach lle rhoddwyd y nodwydd i mewn – mae hyn yn arferol a gall bara rhai wythnosau. Nid oes angen unrhyw driniaeth arno.

Gallant hefyd gael tymheredd uwch, ymddangos yn ansefydlog ac efallai na fyddant am fwyta llawer. Os oes gan eich plentyn dymheredd uwch ac yn ymddangos yn sâl gallwch roi hylif parasetamol iddo. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus a rhoi'r cryfder a'r dos cywir i'ch plentyn ar gyfer ei oedran.

Os ydych yn poeni am eich plentyn ar ôl y brechiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, meddyg neu nyrs practis.

Gallwch roi gwybod am unrhyw sgil-effeithiau tybiedig brechlynnau a meddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn. Gallwch wneud hyn ar-lein yn **yellowcard.mhra.gov.uk** neu drwy ffonio llinell y Cerdyn Melyn ar **0800 731 6789**. (Rhif Rhadffôn yw hwn ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm.)

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Meningitis Now

Ewch i: **www.meningitisnow.org**

Llinell gymorth am ddim: **0808 80 10 388**
(9am i 4pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

E-bost: helpline@meningitisnow.org (Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hateb yn ystod oriau swyddfa yn unig.)

Meningitis Research Foundation

Ewch i: **www.meningitis.org**

Llinell gymorth am ddim: **080 8800 3344**
(9am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

E-bost: helpline@meningitis.org (Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hateb yn ystod oriau swyddfa yn unig.)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am gael rhagor o wybodaeth, ewch i **111.wales.nhs.uk**, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs neu ffoniwch **GIG 111 Cymru**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, ei gynhwysion a sgil-effeithiau posibl, yn **www.medicines.org.uk/emc**. Bydd angen i chi roi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio. Y brechlyn a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Menitorix®.

Mae rhestr sy'n dangos pa frechiadau a gynigir i bawb yng Nghymru ar gael o: **111.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations**

I archebu rhagor o gopïau o'r daflen hon, ewch i: **icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**

I gael gwybod sut y mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i: **111.wales.nhs.uk/AboutUs/Yourinformation/?locale=cy**

Cyhoeddwyd Ebrill 2022
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
ISBN 978-1-78986-154-546